

# TREFN AMGEN AR GYFER Y FOREOL WEDDI

Eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin

## 1. Y RHAGARWEINIAD

Arglwydd, agor ein gwefusau,  
**A'n genau a fynega dy foliant.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Gweddï ddistaw/myfyrdod ar y dydd sydd i ddod.*

Yn gynnar yn y bore  
daw fy ngweddï atat.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

Yr wyt yn llefaru yn fy nghalon ac yn dweud  
“Ceisia fy wyneb”;  
am hynny ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd.  
Crist, trugarha.  
**Crist, trugarha.**

Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyf,  
a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti,  
O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

## 2. GWEINIDOGAETH Y GAIR

### **Salm(au)**

*Bydd pob salm a benodwyd am y dydd yn diweddu gyda*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab :**  
**ac i'r- Ysbryd Glân;**  
**fel yr oedd yn y dechrau, •**  
**y mae yn awr ac y bydd yn wastad :**  
**yn oes oesoedd. A-men.**

### **Y darlleniad o'r Beibl**

*Cyn y darlleniad*  
Darlleniad o ...

*Ar ôl y darlleniad*

Dyma ddiwedd y darlleniad.

*Distawrwydd*

### **Cantigl o'r Efengyl: Benedictus Dominus Deus Israel**

**Yn y tywyllwch fe gyfyd Crist, eich goleuni,**  
**ac fe ffrydia eich iachâd fel y wawr.**

<sup>1</sup>Bendigedig fyddo Arglwydd • Dduw Israel :  
am iddo ymweld â'i bobl a'u prynu • i ryddid;

<sup>2</sup>Cododd waredigaeth gadarn • i ni :  
yn nhŷ – Dafydd • ei was –

<sup>3</sup>Fel y llefarrowd trwy enau ei broffwydi sanctaidd :  
yn yr oesoedd a – fu –

<sup>4</sup>Gwaredigaeth rhag • ein gelynyon :  
ac o afael pawb • sydd yn ein casáu;

<sup>5</sup>Fel hyn y cymerodd drugaredd ar ein • hynafiaid :

a chofio • ei gyfamod sanctaidd,

<sup>6</sup>Y llw a dyngodd wrth Abraham • ein tad :  
y rhoddai inni gael ein hachub • o afael • gelynion,

<sup>7</sup>A'i addoli yn ddi-ofn mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder :  
ger ei fron ef holl – ddyddiau • ein bywyd.

<sup>8</sup>A thithau, fy mhlentyn, gelwir di yn broffwyd • y Goruchaf :  
oherwydd byddi'n cerdded o flaen yr Arglwydd  
i baratoi ei lwybrau,

<sup>9</sup>I roi i'w bobl wybodaeth am waredigaeth :  
trwy faddeuant eu pechodau.

<sup>10</sup>Hyn yw trugaredd calon • ein Duw :  
fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod • i'n plith,

<sup>11</sup>I lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch  
cysgod angau :  
a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab :**  
**ac i'r– Ysbryd Glân;**  
**fel yr oedd yn y dechrau, •**  
**y mae yn awr ac y bydd yn wastad :**  
**yn oes oesoedd. A–men.**

**Yn y tywyllwch fe gyfyd Crist, eich goleuni,**  
**ac fe ffrydia eich iachâd fel y wawr.**

### 3 Y GWEDDIAU

*Yn y Foreol Weddi, offrymir gweddiâu dros y dydd a'i orchwylion, dros  
y byd a'i anghenion a thros yr Eglwys a'i bywyd.*

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn eofn:  
**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...**

## *Dywedir Colect y Dydd*

*Yr ail golect, am dangnefedd.*

O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,  
y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,  
a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:  
amddiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynion,  
fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy nodded,  
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwyr;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Y trydydd colect, am ras.*

O Arglwydd a nefol Dad, Dduw hollalluog a thragwyddol,  
diolchwn iti am ein dwyn yn ddiogel  
i ddechrau'r dydd newydd hwn:  
amddiffyn ni â'th gadarn allu  
fel y'n cedwir ni yn rhydd rhag pob pechod  
ac yn ddiogel rhag pob perygl;  
a galluoga ni ym mhob peth  
i wneud yn unig yr hyn sydd iawn yn dy olwg di;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## 4 Y DIWEDDGLO

Bydded i Dduw Dad,  
nad yw'n casáu ysbryd drylliedig,  
roddi i chwi galon edifeiriol. **Amen.**

Bydded i Grist,  
a ddug ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren,  
eich rhyddhau i farw i bechod ac i fyw i gyfiawnder. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân,  
sy'n ein harwain i bob gwirionedd,  
lefaru wrthy ch eiriau maddeuant a thangnefedd. **Amen.**

Hawfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru yw *Gweddï Ddyddiol*  
2009 (yn cynnwys *Trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y*  
*teitl* Boreol a Hwyrol Weddi 2009) y cynhwyswyd deunydd ohono yn y  
gwasanaeth hwn.